RHONDDA CYNON TAF

**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CYNGOR**

Cofnodion o Wythfed Cyfarfod Cyffredinol Cyngor Blynyddol Ar Hugain o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** ar 10fed Mai 2023 am 4pm

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:-**

Y Cynghorydd G Hughes (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Evans | Y Cynghorydd B Stephens |
| Y Cynghorydd L Addiscott | Y Cynghorydd M Ashford |
| Y Cynghorydd P Binning | Y Cynghorydd R Bevan |
| Y Cynghorydd S Bradwick | Y Cynghorydd J Bonetto |
| Y Cynghorydd G Caple | Y Cynghorydd J Brencher |
| Y Cynghorydd A Crimmings | Y Cynghorydd J Cook |
| Y Cynghorydd R Davis | Y Cynghorydd S J Davies |
| Y Cynghorydd V Dunn | Y Cynghorydd A Dennis |
| Y Cynghorydd J Edwards | Y Cynghorydd E L Dunning |
| Y Cynghorydd L Ellis | Y Cynghorydd A J Ellis |
| Y Cynghorydd D Evans | Y Cynghorydd S Emanuel |
| Y Cynghorydd R Evans | Y Cynghorydd P Evans |
| Y Cynghorydd H Gronow | Y Cynghorydd D Grehan |
| Y Cynghorydd S Hickman | Y Cynghorydd B Harris |
| Y Cynghorydd W Jones | Y Cynghorydd G Holmes |
| Y Cynghorydd W Lewis | Y Cynghorydd W Hughes |
| Y Cynghorydd C Lisles | Y Cynghorydd G Jones |
| Y Cynghorydd C Middle | Y Cynghorydd R Lewis |
| Y Cynghorydd N H Morgan | Y Cynghorydd C Leyshon |
| Y Cynghorydd W Owen | Y Cynghorydd M Maohoub |
| Y Cynghorydd M Norris | Y Cynghorydd A Morgan |
| Y Cynghorydd M Powell | Y Cynghorydd S Morgans |
| Y Cynghorydd A Roberts | Y Cynghorydd Owen-Jones |
| Y Cynghorydd J Smith | Y Cynghorydd G Stacey |
| Y Cynghorydd L A Tomkinson | Y Cynghorydd S Trask |
| Y Cynghorydd G L Warren | Y Cynghorydd W Treeby |
| Y Cynghorydd M Webber | Y Cynghorydd D Williams |
| | Y Cynghorydd D Wood |

**Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol ar-lein:-**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd J Barton | Y Cynghorydd G Hopkins |
| Y Cynghorydd Sera Evans | Y Cynghorydd A S Fox |
| Y Cynghorydd K Johnson | Y Cynghorydd S Rees |

Y CYnghorydd A Rogers Y Cynghorydd D Parkin
Y CYnghorydd J Turner Y Cynghorydd K Webb
Y CYnghorydd D Williams Y Cynghorydd R Yeo

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr P Mee, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

**Ymddiheuriadu am absenoldeb**

Y Cynghorydd J Elliott Y Cynghorydd G O Jones
Y Cynghorydd K Morgan Y Cynghorydd S Powderhill
Y Cynghorydd C Preedy Y Cynghorydd G E Williams
Y Cynghorydd T Williams

**1 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

**2 Ethol Llywydd y Cyngor**

**PENDERFYNWYD –** ethol Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hughes i fod yn Llywydd ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023/24.

Yn dilyn hyn, cymerodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hughes y Gadair ac anerchodd y Cyngor yn ei rôl fel Llywydd.

**3 Etholiadau a Phenodiadau**

**<u>Ethol Dau Ddirprwy Lywydd y Cyngor</u>**

**PENDERFYNWYD –** ethol Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Sheryl Evans i fod yn Ddirprwy Lywydd cyntaf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023/24.

**PENDERFYNWYD –** ethol Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Barry Stephens yn ail Ddirprwy Lywydd ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023/24.

**<u>Derbyn anerchiad gan Faer y Cyngor ar gyfer 2022-2023.</u>**

Nododd y Maer diweddaraf, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Treeby, fod y flwyddyn ddiwethaf fel Maer wedi bod yn fraint iddi. Rhoddodd ddiolch i drigolion, cymunedau a swyddogion oedd wedi ei chefnogi hi a'i helusennau. Ei phrif uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd ymgysylltu â disgyblion ysgolion ledled RhCT a chwrdd â Chyn-filwyr RhCT.

Dywedodd y Cynghorydd Treeby ei bod wedi sicrhau dau grant gwerth £24k ar gyfer Ambiwlans Awyr Cymru a'r Gymdeithas Strôc, a rhoddodd ddiolch i bawb a oedd wedi ei helpu i wneud hyn. Dymunodd yn dda i'r Maer newydd ar gyfer y dyfodol.

Wrth ymateb i hyn, talodd Aelodau deyrnged i'r Maer sy'n ymddeol am ei holl waith ac ymdrechion caled yn ystod ei chyfnod yn y rôl.

**Ethol Maer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023-2024.**

**PENDERFYNWYD -** ethol Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Lewis yn Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023-2024.

Dywedodd Maer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023-2024 fod cael ei hethol yn Faer Rhondda Cynon Taf yn anrhydedd enfawr. Talodd deyrnged i'r Maer diweddaraf, y Cynghorydd Treeby, am ei gwaith caled ac ymrwymiad i'r rôl.

Cyhoeddodd y Cynghorydd Lewis mai Mr Christopher Lewis a Dilys Jouvenat fyddai ei chydweddogion yn ystod ei chyfnod fel Maer RhCT. Yr elusennau y mae wedi'u dewis yw Brain Tumour Research, Natasha Allergy Research Foundation, SANDS (Cymdeithas Marw-enedigaethau a Marwolaethau Newyddanedigion) a Hope Rescue, yn ogystal â chefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol sydd ar ddod a'r Lluoedd Arfog.

Edrychodd y Cynghorydd Lewis ymlaen at weithio'n agos gyda'r Dirprwy Faer.

Dymunodd y Llywydd ac Arweinwyr y Grwpiau/Dirprwy Arweinwyr y Grwpiau yn dda i'r Maer newydd ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**Penodi Dirprwy Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023 - 2024.**

**PENDERFYNWYD -** ethol Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Owen-Jones yn Ddirprwy Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023-2024.

Llongyfarchodd y Dirprwy Faer y Maer newydd, yn ogystal â diolch am yr anrhydedd o gael ei ethol yn Ddirprwy Faer ar gyfer 2023-24.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Owen-Jones ei gydweddog sef ei ferch, Abbey Louise Owen-Jones.

**Penodi Arweinydd y Cyngor.**

**PENDERFYNWYD –** penodi Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE yn Arweinydd y Cyngor ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023/2024.

Rhoddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE ddiolch am gael ei ailbenodi'n Arweinydd y Cyngor. Nododd ei fod wedi bod yn Arweinydd Cyngor RhCT ers 2014 ac mae ei ailbenodiad yn golygu mai dyma'r cyfnod hiraf gan Arweinydd y Fwrdeistref Sirol. Aeth ati i gydnabod yr anrhydedd o gael ei ethol yn Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ers 2019.

Talodd yr Arweinydd deyrnged i staff y Cyngor sydd wedi gweithio'n ddiflino trwy nifer o heriau diweddar i gefnogi cymunedau RhCT. Siaradodd am y cymorth mae'n ei dderbyn gan y Grŵp Llafur, yn ogystal â chymorth gan uwch swyddogion sy'n gweithio'n galed i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon sy'n cael eu codi ac i gyflawni'r buddsoddiad wedi'i dargedu a gafodd ei bennu ochr yn ochr â Chynllun Corfforaethol y Cyngor. Roedd yr Arweinydd wedi gobeithio y byddai'r buddsoddiad cyfalaf uwch a phrosiectau ledled cymunedau RhCT yn parhau i wneud gwahaniaeth er budd trigolion a chymunedau RhCT. Aeth ati i gydnabod y cyfnod heriol sydd o'n blaenau ni ond ychwanegodd y byddai'n mynd i'r afael â'r heriau gyda chymorth pob Aelod, gan gynnwys cymorth pob grŵp gwleidyddol. Siaradodd am yr ymdrechion i gadw'r cynnydd yn Nhreth y Cyngor mor isel â phosibl a dyma rywbeth y mae'r Cyngor wedi'i gyflawni am saith allan o'r naw mlynedd diwethaf.

I gloi, talodd yr Arweinydd deyrnged arbennig i'w Ddirprwy Arweinydd, y Cynghorydd M Webber, sydd wedi rhoi cymorth iddo drwy gydol y cyfnod yma, a rhoddodd ddiolch i bob Aelod y Cyngor.

**Cadarnhau bod Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf yn cael ei benodi'n Arweinydd yr Wrthblaid.**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau penodiad Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K Morgan yn Arweinydd yr Wrthblaid.

Llongyfarchodd Arweinwyr y Grwpiau eraill Arweinydd y Cyngor ac Arweinydd yr Wrthblaid.

**4 Swyddogaethau Gweithredol**

**PENDERFYNWYD** nodi'r Cabinet a'u swyddogaethau unigol, fel y ganlyn: -

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE, Arweinydd y Cyngor ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Isadeiledd a Buddsoddi
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Webber, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Norris, Aelod o'r Cabinet ar faterion Datblygu a Ffyniant
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Lewis, Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Caple, Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol B Harris, Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd y Cyhoedd a Chymunedau
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings, Aelod o’r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol C Leyshon, Aelod o'r Cabinet ar faterion

yr Hinsawdd a Gwasanaethau Corfforaethol

## 5 Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor

Yn ei adroddiad ar y cyd â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wybod i Aelodau am ganlyniad yr adolygiad o Gydbwysedd Gwleidyddol yr Awdurdod ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023/24.

Amlygodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ganlyniadau'r adolygiad a gynhaliwyd a'r seddi sydd ar gael sydd angen eu llenwi gan y grwpiau gwleidyddol priodol fel y nodir yn nhablau A a B yr atodiad i'r adroddiad. Dywedodd fod Adran 5 yn gofyn bod y Cyngor yn penderfynu ar ddyraniad y rhybuddion o gynnig ar gyfer blwyddyn newydd y Cyngor.

**PENDERFYNWYD**-

1. Mabwysiadu'r cynllun ar gyfer dyrannu seddi i'r gwahanol gyrff a grwpiau gwleidyddol y mae Adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn gymwys iddo, fel y manylir yn yr Atodiad i'r adroddiad yma;

2. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu i benodi i gyrff gwleidyddol cytbwys, pan fydd yn derbyn hysbysiad o ddymuniadau'r grwpiau gwleidyddol, yn amodol ar dderbyn unrhyw geisiadau dilynol i newid aelodaeth y Pwyllgorau sydd wedi'u cyfeirio at y Cyngor;

3. Bod y dyraniad o ran cyflwyno Rhybuddion o Gynnig ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023-2024 fel y ganlyn:-

Llafur - 12
Plaid Cymru - 5
Grŵp Annibynnol RhCT - 2
Y Blaid Geidwadol - 1

## 6 PENODI AELODAU PWYLLGORAU 2023-2024

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad, a oedd yn gofyn am benodi Pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023-2024.

**PENDERFYNWYD** penodi'r Pwyllgorau sydd wedi'u nodi isod ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023-2024:

a) Pwyllgor Cynllunio a Datblygu (x11 Aelod)

b) Pwyllgor Trwyddedu (x11 Aelod)

c) Pwyllgor Penodiadau (x5 Aelod)

d) Pwyllgor Apeliadau / Apeliadau'r Gweithwyr / Apeliadau'r Prif

Swyddogion (x5 Aelod)

e) Pwyllgor Trosolwg a Chraffu (x14 Aelod)

f) Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant (x14 Aelod)

g) Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned (x14 Aelod)

h) Pwyllgor Craffu – Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant (x14 Aelod)

i) Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (x6 Aelod)

j) Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (x17 Aelod)

k) Pwyllgor Safonau (x2 Aelod)

l) Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol (x8 Aelod)

m) Pwyllgor y Gronfa Bensiwn (x5 Aelod)

n) Cydbwyllgor Craffu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (x2 Aelod)

**7 PENODI CADEIRYDDION AC IS-GADEIRYDDION PWYLLGORAU 2023-2024**

Yn ei adroddiad, roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yn gofyn i'r Cyngor ystyried penodi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023-2024, a **PHENDERFYNWYD:**

1. Penodi'r Aelodau canlynol i swyddi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion:
    - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu
      Cadeirydd – Y Cynghorydd S Rees
      Is-gadeirydd – Y Cynghorydd W Lewis

    - Pwyllgor Trwyddedu
      Cadeirydd – Y Cynghorydd A S Fox
      Is-gadeirydd – Y Cynghorydd G Stacey

    - Pwyllgor Penodiadau
      Cadeirydd – Y Cynghorydd S J Davies
      Is-gadeirydd – Y Cynghorydd M Webber

    - Pwyllgor Apeliadau / Apeliadau'r Gweithwyr / Apeliadau'r Prif Swyddogion
      Cadeirydd – Y Cynghorydd R Williams
      Is-gadeirydd – Y Cynghorydd L Addiscott

    - Pwyllgor y Gronfa Bensiwn
      Cadeirydd – Y Cynghorydd M Norris
      Is-gadeirydd – Y Cynghorydd M Ashford

2. Penodi Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor

Gwasanaethau Democrataidd a Chynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Webber yn Is-gadeirydd ar y pwyllgor hwnnw, yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y 'Mesur');

3. Cytuno y dylai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn gyfrifol am benodi'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ar gyfer y pwyllgor hwnnw, yn unol â'r adroddiad;

4. Bod penodiad Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant yn cael ei ddyrannu i Grŵp Plaid Cymru;

5. Yn unol â'r enwebiadau a dderbyniwyd gan y Grwpiau Gwleidyddol priodol, bod yr Aelodau canlynol yn cael eu penodi'n Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu sydd wedi'u nodi isod:--

| **Pwyllgor** | **Cadeirydd** | **Is-gadeirydd** |
|---|---|---|
| | | |
| Trosolwg a Chraffu | J Edwards | B Stephens |
| Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant | C Middle | G Warren |
| Gwasanaethau Cymuned | J Bonetto | R Davis |
| Addysg a Chynhwysiant | Sera Evans | K Webb |

6. Nodi penodiad y Dirprwy Lywydd, y Cynghorydd Sheryl Evans, yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol;

7. Nodi, yn dilyn pontio i un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Cwm Taf Morgannwg, y bydd adroddiad sy'n amlinellu'r trefniadau craffu newydd yn cael ei gyflwyno gerbron Aelodau ym mis Mehefin. Bydd yr adroddiad yn adlewyrchu'r diwygiad i'r trefniadau craffu ar y cyd sydd ar waith ar hyn o bryd;

8. Nodi y dylai unigolion sy'n cyflawni'r rolau Cadeiryddion canlynol dderbyn Cyflog Uwch yn unol ag argymhellion Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol
(Hyd at uchafswm o 19):

| |
|---|
| Y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu |
| Y Pwyllgor Trwyddedu |
| Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu |
| Y Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant |
| Y Pwyllgor Craffu – Gwasanaethau Cymuned |
| Y Pwyllgor Craffu – Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant |
| Y Pwyllgor Apeliadau |
| Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| Pwyllgor y Gronfa Bensiwn |

9. Nodi'r angen i gyhoeddi a chyflwyno'r rhestr o gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer 2023-24 erbyn 31 Gorffennaf 2023.

## 8 CYRFF LLED FARNWROL/PWYLLGORAU AD HOC 2023-2024

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd ei adroddiad mewn perthynas â phenodi Aelodau i'r Cyrff Lled-Farnwrol/Pwyllgorau Ad Hoc ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023 - 2024, yn amodol ar gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor fel y nodir yn adran 3 yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** penodi'r canlynol:

1. Pwyllgor Llywodraethwyr yr Awdurdod Addysg Lleol (Penodiadau) (5 Aelod). (4 Llafur, 1 Plaid Cymru):

   Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol R Lewis, G Stacey, J Brencher, S Hickman a Sera Evans

2. Panel Ymddeol yn Gynnar o Wirfodd / Ymddiswyddo (5 Aelod – 4 Llafur, 1 Plaid Cymru):

   Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M Webber, L Tomkinson, J Bonetto, G Jones a D Grehan.

3. Cydbwyllgor Ymgynghori (4 Aelod):

   Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A Crimmings, R Lewis, M Webber ac A Morgan OBE

## 9 CYRFF ALLANOL

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad i ystyried penodi Aelodau i Gyrff Allanol a Chydbwyllgorau Anweithredol. Tynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth sylw Aelodau at y rôl wag ar Gorff Allanol Trivallis ar ôl i'r Cynghorydd B Stephens ymddiswyddo o'r rôl:-

**PENDERFYNWYD –** penodi'r Aelodau sydd wedi'u nodi isod i'r Cyrff Allanol ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023-2024

a) Age Concern Cymru (Y Cynghorydd G Caple)
b) Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru (C.L.A.W.) (Y Cynghorydd C Leyshon)
c) Pwyllgor Bowls Dan Do Cwm Cynon (Y Cynghorydd A Morgan OBE)
ch) Elusen Edward Thomas (Y Cynghorwyr R Lewis, R Williams, A S Fox ac A Dennis)
d) Cyngor Cyswllt Cymru (Y Cynghorwyr M Webber a C Leyshon)
dd) The Alliance (Y Cynghorwyr G Jones, E Dunning a D Parkin)
e) Pwyllgor Cyswllt Safle Glofa'r Tŵr (Y Cynghorwyr L Addiscott, S Emmanuel ac A Rogers)
f) Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Y Cynghorwyr A Morgan OBE, M Webber, C Leyshon, R Lewis ac A Crimmings)
ff) Bwrdd Gweithredol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Y Cynghorwyr A Morgan OBE a M Webber)
g) Busnes mewn Ffocws (Y Cynghorydd M Norris)
ng) Trivallis (Y Cynghorydd C Middle)

**PENDERFYNWYD** penodi cynrychiolwyr y Cyngor i'r Cydbwyllgorau Anweithredol canlynol:

a) Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (Y Cynghorwyr S Bradwick, A Roberts, G Holmes a G Williams)
b) Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (Y Cynghorydd S Emmanuel)
c) Panel Troseddau Heddlu De Cymru (Y Cynghorwyr B Harris a L Addiscott)

**(Noder:** Roedd yr Aelodau canlynol am gofnodi eu bod nhw wedi pleidleisio o blaid penodi'r Cynghorydd A O Rogers fel cynrychiolydd i Gydbwyllgor Anweithredol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog:
Y Cynghorwyr S Evans, D Grehan, A Ellis, P Evans, H Gronow, D Wood, S Trask, K Johnson, M Powell, C Lisles, P Binning a D Evans)

## 10 CALENDR CYFARFODYDD 2023-2024

Yn ei adroddiad, ceisiodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu gymeradwyaeth ar gyfer Calendr Cyfarfodydd 2023-2024 sydd wedi'i nodi yn Atodiad 1, a chyfeiriodd at yr hyblygrwydd fyddai ei angen gan fod modd i'r calendr newid yn sgil gofynion busnes y Cyngor.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth at ganlyniadau'r arolwg a gafodd ei gynnal yn unol ag Adran 6(2) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac mae crynodeb i'w weld yn adran 4 yr adroddiad. Ychwanegodd, mewn perthynas â'r gofyniad statudol i gynnal arolwg i Aelodau o ran amseroedd cyfarfodydd, nad oes rheidrwydd ar y Cyngor i wneud newidiadau ar sail yr adborth yma. Cadeiryddion perthnasol fydd yn gyfrifol am benderfynu ar hyn yn unol â gofynion busnes y Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

1. Cytuno ar y Calendr o Gyfarfodydd arfaethedig ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023-24, fel sydd wedi'i nodi yn Atodiad 1 yr adroddiad;

2. Nodi bod modd i'r calendr drafft yma newid, yn seiliedig ar ofynion busnes dros flwyddyn nesaf y Cyngor. Caiff unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau eu gwneud ar y cyd â chadeiryddion y pwyllgorau priodol;

3. Cytuno, ac eithrio cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu, na fydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn ystod gwyliau'r ysgol, yn amodol ar anghenion busnes brys.

## 11 Adroddiadau Blynyddol 2022/23

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad a roddodd Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022/23 i'r Cyngor, gyda chyfle i'r Cadeiryddion gyfrannu at fusnes y ddau bwyllgor ar gyfer blwyddyn y Cyngor.

Cafodd Mr Christopher Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio,

a Chynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Edwards, Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, eu croesawu gan Aelodau er mwyn iddyn nhw gyflwyno eu hadroddiadau ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022/2023.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys adroddiadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022/23.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.15 pm**

**Y Cynghorydd G Hughes**
**Cadeirydd.**